

## Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a nodir yn yr alwad hon am dystiolaeth.

Cwestiwn 1: A oes angen i ni wneud unrhyw newidiadau i broses asesiad modd ariannol presennol i'w gwneud yn haws i geiswyr ei gwblhau? Os felly, cynigiwch newidiadau arfaethedig.

Cwestiwn 2: A oes angen i ni wneud unrhyw newidiadau i'r broses cymorth cyfreithiol bresennol lle mae gofyn am hepgoriaid? Os felly, darparwch newidiadau a awgrymwyd.

Cwestiwn 3: A ydych yn ymwybodol o unrhyw achosion lle y byddai wedi helpu i gael cyfreithiwr yn cynorthwyo'r teulu mewn profedigaeth ar amser pan fydd y crwner yn gwneud y penderfyniad i roi Erthygl 2 ar waith?

Cwestiwn 4: A ydych yn ymwybodol o unrhyw achosion lle mae anawsterau wedi bod mewn sefydlu a yw Erthygl 2 wedi cael ei roi ar waith? Pa fath o achosion yw'r rhain?

Cwestiwn 5: Os ydych wedi ateb ydw i gwestiwn 4, pa effaith y mae'r anawsterau hyn wedi eu cael ar brofiad y teulu mewn profedigaeth o'r achosion a'r cais am gymorth cyfreithiol?

Cwestiwn 6: A ydych yn ymwybodol o unrhyw achosion lle mae ceisydd wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol ac nid wedi ei gael am gynrychiolaeth cyfreithiol am achos lle mae Erthygl 2 wedi cael ei roi ar waith? Rhowch fanylion.

Cwestiwn 7: Yn eich profiad chi, a yw Erthygl 2 erioed wedi cael ei roi ar waith mewn achosion lle nad yw'r farwolaeth wedi digwydd yng ngharchar y wladwriaeth neu yn nalfar wladwriaeth? Os ydy, a allwch chi gynnwys manylion am y mathau hyn o achosion.

Cwestiwn 8: Lle mae ceisiadau am gymorth cyfreithiol ac/ neu gynrychiolaeth cyfreithiol yn cael eu gwrthod, a yw'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) yn rhoi rhesymau clir dros y penderfyniad hwn?

Cwestiwn 9: A oes yna ffyrdd lle y gall yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ddarparu mwy o eglurder parthed eu penderfyniadau?

Cwestiwn 10: Yn eich profiad chi, oes cwestau wedi bod lle nad yw Erthygl 2 wedi cael ei roi ar waith sydd wedi bodloni'r meini prawf a ystyriwyd gan y Cyfarwyddwr? Rhowch fanylion.

Cwestiwn 11: A yw'r diffiniad presennol o 'les y cyhoedd ehangach' yng nghyd-destun caniatáu cymorth cyfreithiol am gwestau yn hawdd i'w deall? Os ddim, awgrymch le i wella.

Cwestiwn 12: Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gwestau sydd wedi cael cymorth cyfreithiol trwy Gynllun Cyllid Achos Eithriadol (ECF) o benderfyniad 'lles y cyhoedd ehangach'? Os felly, darperwch fanylion yr achosion hyn.

Cwestiwn 13: Ydych chi'n meddwl bod teuluoedd yn parhau i allu deall ag ymgysylltu gyda'r achosion mewn achosion lle nad oes ganddynt gynrychiolaeth cyfreithiol mewn cwest? Nodwch resymau dros eich ymateb.

Adolygiad o gymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau— Galwad am dystiolaeth

26

Cwestiwn 14: Yn eich profiad chi, sut y gallwn sicrhau bod cyllid cymorth cyfreithiol ar gael i ddarparu'r gofal gorau i deuluoedd sy'n galaru sy'n mynd drwy'r system gwest?

Cwestiwn 15: Yn eich barn chi, a yw cwestau lle mae gan y wladwriaeth gynrychiolaeth gyfreithiol yn bodloni'r meini prawf sy'n cael ei ddefnyddio i benderfynu a oes angen asesiad modd ariannol?

Cwestiwn 16: Yn eich profiad chi, mewn cwestau lle mae gan asiantaethau'r wladwriaeth a'r teulu gynrychiolaeth cyfreithiol, a yw'r teulu yn cael y lefel angenrheidiol o gefnogaeth a chynrychiolaeth gan eu cynrychiolydd cyfreithiol i'w galluogi i ddeall a chymryd rhan yn yr achosion? Rhowch enghreifftiau lle y bo'n bosibl gwneud hynny.

Cwestiwn 17: Ar gyfer achosion lle mae gan y teulu mewn profedigaeth gynrychiolaeth gyfreithiol, ydych chi'n teimlo bod eu cyfreithiwr(wyr) yn effeithiol wrth gynrychioli'r hyn sy'n bwysig i'r teulu? Rhowch enghreifftiau lle y bo'n bosibl gwneud hynny.

Cwestiwn 18: Yn eich profiad chi, pa effaith y mae'r nifer o gyfreithwyr sy'n cynrychioli'r wladwriaeth yn ei gael ar brofiad y teulu sydd mewn profedigaeth?

Cwestiwn 19: Mewn achosion lle y mae sawl cyfreithiwr yn cynrychioli'r wladwriaeth, a fyddai'r teulu yn elwa o gael gwybodaeth ynghylch y rôl y mae pob un yn ei gymryd, a'r math o safle cyfreithiol sydd ganddynt? Rhowch enghreifftiau lle bo'n bosibl gwneud hynny.

Cwestiwn 20: A ydych yn gallu darparu unrhyw enghreifftiau o achosion lle mae cyfreithiwr wedi mabwysiadu arddull/ymdriniaeth eiriolaeth amhriodol? Os felly, a oedd y cyfreithiwr yn cynrychioli'r wladwriaeth neu'r teulu mewn profedigaeth?

Cwestiwn 21: A ydych yn ystyried bod canllaw'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bodloni anghenion unigolion mewn profedigaeth? Os ddim, beth ydych chi'n awgrymu?

Cwestiwn 22: A ydych wedi dod ar draws unrhyw wybodaeth arall ddefnyddiol? Os felly, rhowch fanylion.

Cwestiwn 23: Beth ydych chi'n meddwl gallai gael ei wneud yn well i gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth drwy'r broses gwest?

Cwestiwn 24: A oes unrhyw beth arall yr hoffech i ni ystyried?

Diolch am gymryd rhan yn yr alwad am dystiolaeth drwy'r ymarfer hwn.